

CYMUNEDAU'N TRECHU TERFYSGAETH

Gallwch helpu'r heddlu i fynd i'r afael â therfysgaeth ac arbed bywydau drwy roi gwybod am ymddygiad a gweithgarwch amheus. Os byddwch yn gweld neu'n clywed rhywbeth anarferol neu amheus, dilynwch eich greddf a GWEITHREDWCH drwy roi gwybod amdano, yn gyfrinachol, yn gov.uk/ACT. Gallai unrhyw ddarn o wybodaeth fod yn bwysig, mae'n well bod yn ddiogel a rhoi gwybod amdano. Gallai eich gweithredoedd achub bywydau.

Pa fath o ymddygiad neu weithgarwch sy'n medru bod yn amheus?



Os ydych yn gweithio yn y sector llogi neu werthu cerbydau masnachol, a oes achos o werthu neu logi wedi ymddangos yn anarferol?



Mae angen i derfysgwyr storio offer tra'n paratoi ar gyfer ymosodiad. Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw un yn storio neu'n prynu llawer o gemegau, gwrteithiau neu silindrau nwy?



Gellir archebu deunyddiau amheus ar-lein yn ogystal â mewn siop. Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw un yn derbyn eitemau anarferol a brynwyd ar-lein?



Mae arsylwi a gwyliadwriaeth yn helpu terfysgwyr i gynllunio ymosodiadau. Ydych chi wedi bod yn dyst i unrhyw un yn tynnu lluniau o drefniadau diogelwch neu deledu cylch cyfyng, neu gymryd nodiadau amdanynt?



Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw un yn croesawu neu'n hyrwyddo syniadau llawn casineb neu ideoleg eithafol?



Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n edrych ar ddeunydd eithafol, gan gynnwys ar y We Dywyll fel y'i gelwir, neu'n rhannu a chreu cynnwys sy'n hyrwyddo neu'n clodfori terfysgaeth?



Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw un yn storio neu'n caffael arfau tanio anghyfreithlon neu wrthrychau a allai gael eu defnyddio fel arfau?



Ydych chi'n adnabod rhywun sydd â phasportau neu ddogfennau eraill mewn enwau gwahanol heb reswm amlwg?



Mae twyll sieciau a chardiau credyd yn ffyrdd o gynhyrchu arian parod. Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw drafodion banc amheus neu anarferol?



Gall cyfarfodydd, hyfforddiant a chynllunio ddigwydd unrhyw le. Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n teithio ond sy'n amhendiant ynglŷn â ble mae'n mynd?

Nid ydych yn gwastraffu ein hamser, ac ni fyddwn yn anwybyddu unrhyw alwad na chlic. Caiff yr hyn y byddwch yn ei ddweud wrthym ei drin yn hollol gyfrinachol ac ymchwilir iddo yn drwyadl gan swyddogion profiadol cyn, ac os, bydd angen i'r heddlu weithredu.

Mewn argyfwng, ffoniwch 999 bob amser.

Cofiwch, dilynwch eich greddf a GWEITHREDWCH. Gweithredu'n Gwrthwynebu Terfysgaeth.